

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

### 328 - Beirniadaeth Barddoniaeth Blwyddyn 10 ac 11

#### Beirniad: Huw Dylan Jones

Daeth deunaw ymgais i law ac fe aeth y beirdd i sawl cyfeiriad gwahanol – twyll personol, twyll mewn perthynas, twyll gwleidyddol a thwyll amgylcheddol. Rhaid dweud fod y safon y gystadleuaeth yn uchel drwyddi draw. Yn gyffredinol mae'n bwysig cofio nad yw barddoniaeth yn pregethu ond yn awgrymu sy'n rhoi cyfle i'r darlennydd feddwl drosto'i hun. Diffyg yn y cynildeb yma oedd gwendid nifer o'r cerddi. Mae cywirdeb iaith hefyd yn bwysig, yn arbennig sillafu geiriau sy'n allweddol i'r gerdd yn gywir.

Yn drydydd rhoddaf ELIN. Cerdd sy'n cyfeirio at bartion honedig Rhif yn 10 Stryd Downing ac yn llwyddo'n rhyfeddol o fewn ffram barddonol i ddadansoddi pam eu bod wedi eu cynnal. Synnwn i ddim y gwelwn ni'r awdur yn ohebydd gwleidyddol o San Steffan rhyw ddydd!

Yn ail rhoddaf OWAIN. Twyll cyffredinol sydd yma a thwyll oesol o'r bobl gyffredin gan y rhai sy mewn grym – 'yn gloddesta ar bobl ddiniwed.' Mae yma ddweud da, cymhariaethau gafaegar a neges bwysig er bod angen cymoni ychydig o ran y mydr.

I'r brig eleni daw ERIN (ffugenw – BITW). Rhaid cyfaddef mai dyma'r gerdd ddaeth I'r brig ar y darlenniad cyntaf ac ni newidiais fy meddwl ar ôl sawl darlenniad. Mae'r bardd yn olrhain twyll trwy nifer o ddigwyddiadau yng Nghymru – Cwm Celyn, Aberfan ac yn fwy diweddar y twyll honedig yn ystod y pandemig. Mae'r gerdd yn llawn o gymhariaethau gafaelgar a'r mynegiant yn gadarn, groyw. Ac yn goron ar y cyfan mae'r gerdd yn gorffen yn obeithiol sy'n llwyddo I godi calon y darlennydd.

1af – Erin James - Lynch

2il – Owain Ruddy

3ydd – Elin Williams